

## **Croeso i Gyfeiriadur Hyfforddiant Tymor y Gwanwyn 2021/22 Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wreccsam – Tîm Gofal Plant**

Yn y cyfeiriadur hwn byddwch yn dod o hyd i'r rhaglen hyfforddiant craidd a gynhelir rhwng Ionawr 2022 a Mawrth 2022.

Mae'r cyrsiau canlynol yn gymysgedd o hyfforddiant personol ac ar-lein drwy Zoom. Gweler cyrsiau unigol am wybodaeth bellach.

Yn ddarostyngedig i'r galw a'r nifer sy'n cymryd rhan, efallai y byddwn yn ychwanegu at y cyrsiau hyn o dro i dro. Bydd diweddariadau yn cael eu hanfon yn yr e-fwletinâu misol ac ar ein tudalen Facebook.

### **Gweithdrefnau Cyrsiau Hyfforddi Archebu Cwrs Hyfforddi**

#### **Sylwch:**

- Mae costau a dyddiadau cyrsiau ar gael yn y cyfeiriadur hyfforddiant
- Rydym yn rhoi cymhorthdal sylweddol ar gyfer hyfforddiant sy'n y cyfeiriadur. Rydym angen codi tâl ar gyfer costau'r rhaglen ond rydym yn ceisio eu cadw mor isel â phosibl.
- Cyn archebu lle ar y cwrs, gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen cynnwys y cwrs ac yn siŵr y bydd y cwrs yn bodloni eich anghenion hyfforddi a'ch bod yn gallu bodloni'r gofynion mynediad.
- Os yw'r ffurflen archebu yn cael ei chwblhau gan gyflogwr yn hytrach na'r ymgeisydd a enwyd, yna cyfrifoldeb y cyflogwr yw sicrhau bod yr ymgeisydd yn addas ar gyfer y cwrs a bod gwybodaeth y cwrs yn cael ei rhannu gyda'r ymgeisydd.
- Y dull a ffefrir gennym ar gyfer archebu a thalu yw drwy ein system talu ar-lein Sylwer nad yw'r derbyniad taliad yn gadarnhad o'ch archeb. Bydd hwn yn cael ei anfon ar wahân. <https://www.civicaepay.co.uk/WrexhamEstore/estore/default/Catalog/Index?newSearch=False>
- Gellir hefyd talu drwy siec neu drosglwyddiad banc o fewn 5 diwrnod i Wasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wreccsam dderbyn eich archeb. Ni ellir cadarnhau archebion nes derbynnir taliad. Gellir archebu lle drwy lenwi Ffurflen Archebu Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wreccsam, neu drwy anfon e-bost i'r [childcaretraining@wrexham.gov.uk](mailto:childcaretraining@wrexham.gov.uk). Mae llawer o bobl eisiau mynd ar y cyrsiau, felly archebwch mewn da bryd.
- Byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â newidiadau i'r cyfeiriadur, cyrsiau newydd ac unrhyw newidiadau i'r cyrsiau a gynlluniwyd drwy E-fwletinâu a'n tudalen Facebook. Os nad ydych ar ein rhestr bostio ac yn awyddus i fod, e-bostiwch [childcaretraining@wrexham.gov.uk](mailto:childcaretraining@wrexham.gov.uk) gyda'ch enw, lleoliad a 'Rhestr Ddosbarthu' yn y llinell pwnc.

## Cadarnhau Lle

- Bydd pob archeb cwrs yn cael ei gadarnhau drwy e-bost fel ein hoff ddull o gysylltu.
- Nodwch gyfeiriad e-bost ar eich ffurflen archebu.
- Gwnewch yn siŵr fod cadarnhad o'r archeb yn cael ei anfon ymlaen at yr ymgeisydd.
- Os na fyddwch yn derbyn cadarnhad o'ch archeb peidiwch â throi fyny ar y cwrs.
- Bydd nodyn atgoffa yn cael ei anfon at gyfranogwyr wythnos cyn y cynhelir y cwrs.

## Canslo Cwrs

O bryd i'w gilydd bydd angen i ni ganslo cyrsiau oherwydd niferoedd isel. Ein nod yw gwneud y penderfyniadau hyn o leiaf wythnos cyn i'r cwrs gael ei redeg. Rydym yn gwerthfawrogi y gall hyn fod yn rhwystredig, ond byddwn yn trosglwyddo'ch archeb i'r cwrs nesaf sydd ar gael ble bo'n bosibl.

Os bydd angen i ni ganslo cwrs ar fyr rybudd, e.e. tywydd gwael, salwch tiwtor, byddwn yn rhoi gwybod i gyfranogwyr cyn gynted ag y bo modd. Er mwyn cynorthwyo gyda hyn, sicrhewch eich bod wedi rhoi manylion cyswllt priodol ar eich ffurflen archebu.

## Canslo gan Gyfranogwr / Dim presenoldeb

Os na fyddwch yn gallu mynychu'r cwrs wedi'r cyfan, byddwch angen hysbysu'r Tîm Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wreccsam am y newid yn eich amgylchiadau. Anfonwch neges e-bost i [childcaretraining@wrexham.gov.uk](mailto:childcaretraining@wrexham.gov.uk) neu ffoniwch 01978 292094 i wrthod eich presenoldeb. Mae hyn yn ein galluogi i gynnig lle i bobl ar y rhestr aros.

- Rhoddir ad-daliad llawn pan fyddwn wedi derbyn rhybudd o 10 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cwrs.
- Ni fydd ad-daliad yn cael ei dalu ar ôl yr amser hwn.
- Os na fyddwch yn gallu mynychu cwrs hyfforddiant oherwydd COVID-19 gadewch i ni wybod cyn gynted â phosibl a bydd eich archeb yn cael ei drosglwyddo i'r cwrs nesaf sydd ar gael.
- Fel arall, gellir enwi mynychwr arall i gymryd lle'r sawl sy'n methu â mynychu ar unrhyw adeg cyn y cwrs drwy gysylltu â'r tîm ar y manylion uchod. Ni fydd ffi ychwanegol am wneud hyn.
- Pan fo cyfranogwyr yn methu cyrsiau hyfforddiant dro ar ôl tro, ysgrifennir at y rheolwr/goruchwyliwr lleoliad ac efallai y byddwch yn anghymwys ar gyfer cyrsiau hyfforddiant â chymhorthdal.

## Tystysgrifau

Darperir tystysgrifau ar gyfer pob cwrs. Bydd rhai yn cael eu cyflwyno ar ddiwedd yr hyfforddiant ac eraill yn dilyn yn y post yn unol â'r gweithdrefnau achredu ar gyfer cyrsiau unigol. Bydd y rhain yn cael eu postio i'r cyfeiriad ar eich ffurflen archebu cwrs. Rydym yn gwneud copïau o dystysgrifau cyrsiau achrededig a ddosbarthwn ond nodwch na fyddwn yn talu am unrhyw dystysgrifau newydd. Cyfrifoldeb y cyfranogwr fydd tystysgrifau newydd.

## **Ymwybyddiaeth Sylfaenol o Ddiogelu (Oedolion a Phlant) Cymru Gyfan**

**Cofiwch anfon e-bost at [Childcaretraining@wrexham.gov.uk](mailto:Childcaretraining@wrexham.gov.uk) i ofyn a oes lle ar y cyrsiau cyn talu**

Mae'r hyfforddiant amddiffyn plant y mae'n rhaid i ymarferwyr ei gwblhau bellach yn hyfforddiant diogelu plant ac oedolion ar y cyd a ddarperir gan Dîm Diogelu Gweithlu / Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Gofal Plant CBSW.

Mae'r hyfforddiant hwn ar gyfer staff y blynyddoedd cynnar a gofal plant sy'n newydd i'r sector neu sydd heb gwblhau'r hyfforddiant hwn eto.

Mae'r hyfforddiant hwn bellach wedi ei safoni ar draws Cymru ac yn gysylltiedig â'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau a'r Fframwaith Sefydlu.

**Byddwch ond angen cwblhau'r cwrs hwn unwaith. Yna argymhellir eich bod yn cwblhau Cwrs Gloywi Diogelu bob tair blynedd.**

### **Manylion y Cwrs**

Dyddiad: 9fed a 10fed Chwefror 2022

Amser: 6:30pm-8pm – **mae'n rhaid i chi fynychu'r ddau ddyddiad**

Lleoliad: Trwy gyfrwng Zoom

Hyfforddwr: Datblygu Gweithlu CBSW/Tîm Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam

Cynulleidfa: Pob ymarferwr

Cost: £15

## Hyfforddiant Gloywi Diogelu Plant

**Cofiwch anfon e-bost at [Childcaretraining@wrexham.gov.uk](mailto:Childcaretraining@wrexham.gov.uk) i ofyn a oes lle ar y cyrsiau cyn talu**

Cwrs gloywi i'r rhai sydd wedi cwblhau Cwrs Ymwybyddiaeth Ddiogelu Sylfaenol Cymru Gyfan yw hwn. Bydd y cwrs yn gloywi eich dealltwriaeth o arwyddion a symptomau camdriniaeth, niwed ac esgeulustod, sut i roi gwybod am hynny a chofnodi unrhyw bryderon a'r fframwaith deddfwriaethol sy'n sail i'ch cyfrifoldebau.

**Argymhellir bod holl weithwyr blynyddoedd cynnar a gofal plant yn cwblhau'r hyfforddiant hwn bob 3 blynedd.**

### Manylion y Cwrs

Dyddiad: 8fed Mawrth 2022

Amser: 6pm-8pm

Lleoliad: Trwy gyfrwng Zoom

Hyfforddwr: Datblygu Gweithlu CBSW/Tîm Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam

Cynulleidfa: Pob ymarferwr

Cost: £15

## Arweinydd Diogelu Dynodedig – Uwch

**Cofiwch anfon e-bost at [Childcaretraining@wrexham.gov.uk](mailto:Childcaretraining@wrexham.gov.uk) i sicrhau bod lle ar y cwrs cyn talu**

Mae'r cwrs hwn i'r rhai sydd wedi bod yn arweinydd dynodedig am nifer o flynyddoedd. Bydd y cwrs hwn yn ystyried astudiaethau cwrs a deddfwriaeth newydd ac yn cynnig cyfle i chi drafod materion sy'n ymwneud â'ch swyddogaeth.

**Argymhellir bod holl arweinwyr diogelu dynodedig yn y blynyddoedd cynnar a lleoliadau gofal plant yn cwblhau'r hyfforddiant hwn yn flynyddol**

### Manylion y Cwrs

Dyddiad: 24 Mawrth 2021

Amser: 6pm-8pm

Lleoliad: Zoom

Hyfforddwr: Datblygu Gweithlu CBSW/Tîm Gofal Plant Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam

Cynulleidfa: Pob ymarferwr

Cost: £15

## Cymorth Cyntaf Sylfaenol Pediatrig

**Cofiwch anfon e-bost at [Childcaretraining@wrexham.gov.uk](mailto:Childcaretraining@wrexham.gov.uk) i ofyn a oes lle ar y cyrsiau cyn talu**

Mae'r cwrs Cymorth Cyntaf Pediatrig Sylfaenol ar gyfer unrhyw un sy'n gofalu am blant, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol gofal plant. Mae hwn yn gwrs 6 awr wedi ei gymeradwyo gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Dylai'r cwrs hwn gael ei ailadrodd bob **tair** blynedd.

Mae'r cwrs yn cynnwys elfennau theori ac elfennau ymarferol. Nid oes asesiad ffurfiol ar ddiwedd y cwrs. Bydd dysgu ymarferwyr yn cael ei asesu drwy gydol y cwrs.

O ganlyniad i ostyngiad yn y nifer sy'n gallu cael mynediad i'r cwrs hwn gallwn ond derbyn 8 o bobl fesul cwrs.

### **Manylion y Cwrs**

Dyddiad: 8fed a 15fed Chwefror 2022

Amser: 6:30pm-9:30pm

Lleoliad: Atrium

Hyfforddwr: Atrium

Cynulleidfa: Pob ymarferwr

Cost: Rhad ac am ddim

Dyddiad: 9fed a 16eg Mawrth 2022

Amser: 6:30pm-9:30pm

Lleoliad: Atrium

Hyfforddwr: Atrium

Cynulleidfa: Pob ymarferwr

Cost: Rhad ac am ddim

## **Cefnogi Plant gyda Phroblemau Ymlyniad**

Mae'r cwrs yn addas i staff addysgu a staff cymorth mewn Lleoliad Blynyddoedd Cynnar, Ysgolion Cynradd neu Ysgolion Arbenigol

- Niwrowyddoniaeth Ymlyniad
- Pedwar categori ymlyniad
- Sut mae anawsterau ymlyniad yn codi mewn plant
- Sut mae anawsterau ymlyniad yn gallu ymddangos mewn plant
- Sesiwn strategaethau ymarferol i gefnogi disgyblion mewn dosbarth
- Gweithio gyda rhieni a gofalwyr i wella perthynas

### **Manylion y Cwrs**

Dyddiad: 1fed Chwefror 2022

Amser: 12pm-2pm

Lleoliad: Trwy gyfrwng Zoom  
Hyfforddwr: Concept Training  
Cynulleidfa: Pob ymarferwr  
Cost: Rhad ac am ddim

Dyddiad: 23fed Mawrth 2022  
Amser: 6:30pm-8:30pm  
Lleoliad: Trwy gyfrwng Zoom  
Hyfforddwr: Concept Training  
Cynulleidfa: Pob ymarferwr  
Cost: Rhad ac am ddim

### **Sut i gael sgysiau anodd**

A ydych erioed wedi cael sgws anodd yn y gwaith neu gartref?  
Ydych chi erioed yn teimlo nad yw pobl eraill yn gwrando ar yr hyn yr ydych ei angen?  
Ydych chi erioed wedi cymryd rhywbeth mae rhywun wedi ei ddweud yn bersonol neu wedi ymateb yn amddiffynnol?

Mae sgysiau anodd yn gyffredin mewn perthynas waith a theulu ac mae bod yn rhan o wrthdaro fel hyn yn gallu bod yn heriol ac yn flinedig. Mae cyfathrebu da yn hanfodol ar gyfer perthynas dda, felly bydd y cwrs yn dysgu dull syml i ddeall anghenion heb eu cyflawni sydd tu ôl i weithredoedd a lleferydd pobl, a sut i gyfathrebu mewn ffordd sydd yn helpu i wneud cysylltiadau, bodloni anghenion a datrys gwahaniaethau.

### **Manylion y Cwrs**

Dyddiad: 7fed Chwefror 2022  
Amser: 6:30pm-8:30pm  
Lleoliad: Trwy gyfrwng Zoom  
Hyfforddwr: Concept Training  
Cynulleidfa: Pob ymarferwr  
Cost: Rhad ac am ddim

Dyddiad: 30fed Mawrth 2022  
Amser: 12pm-2pm  
Lleoliad: Trwy gyfrwng Zoom  
Hyfforddwr: Concept Training  
Cynulleidfa: Pob ymarferwr  
Cost: Rhad ac am ddim

## **Cyflwyniad i Iechyd Meddwl yn y Blynyddoedd Cynnar**

Mae'r cwrs lefel sylfaen hwn wedi'i lunio ar gyfer cynulleidfa sy'n gweithio gyda phlant rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Bydd hyn yn rhoi cyfle i gyfranogwyr adlewyrchu ac adeiladu ar ymarfer presennol, yn ogystal â dyfnhau hyn drwy fagu gwybodaeth a sgiliau newydd, er mwyn eu galluogi i gefnogi plant a phobl ifanc yn well.

Yn ystod y cwrs hwn bydd cyfranogwyr yn:-

- Datblygu dealltwriaeth gyffredin o iechyd meddwl yn y blynyddoedd cynnar
- Datblygu dealltwriaeth o ffactorau risg ac atal, a all effeithio ar blant a phobl ifanc
- Ystyried sut y gall oedolion y gellir ymddiried ynddynt hyrwyddo iechyd meddwl plant a phobl ifanc
- Archwilio ffyrdd i hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol yn ein lleoliadau
- Adnabod pwysigrwydd gofalu am ein lles ein hunain

### **Manylion y Cwrs**

Dyddiad: 14fed Chwefror 2022

Amser: 6pm-8pm

Lleoliad: Trwy gyfrwng Zoom

Hyfforddwr: Young Minds

Cynulleidfa: Pob ymarferwr

Cost: Rhad ac am ddim

Dyddiad: 30fed Mawrth 2022

Amser: 10am-12pm

Lleoliad: Trwy gyfrwng Zoom

Hyfforddwr: Young Minds

Cynulleidfa: Pob ymarferwr

Cost: Rhad ac am ddim

## **Cefnogi Plant gyda Phroblemau Emosiwn Cymdeithasol a/neu Faterion Iechyd Meddwl**

- Mae'r cwrs hwn yn canolbwyntio ar anghenion plant gydag anawsterau cymdeithasol, emosiynol a/neu iechyd meddwl
- Byddwch yn magu dealltwriaeth niwrowyddonol o'r rhesymau efallai pam mae plant a phobl ifanc yn dangos ymddygiad heriol
- Byddwch yn dysgu strategaethau i atal ymddygiad heriol
- Byddwch yn dysgu strategaethau ar gyfer ymateb i ymddygiad heriol
- Byddwch yn cael eich cyflwyno i adnoddau cenedlaethol am ddim, sydd ar gael i gefnogi plant gydag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl.

### **Manylion y Cwrs**

Dyddiad: 15fed Chwefror 2022



Amser: 10am-12pm  
Lleoliad: Trwy gyfrwng Zoom  
Hyfforddwr: Concept Training  
Cynulleidfa: Pob ymarferwr  
Cost: Rhad ac am ddim

Dyddiad: 30fed Mawrth 2022  
Amser: 6:30pm-8:30pm  
Lleoliad: Trwy gyfrwng Zoom  
Hyfforddwr: Concept Training  
Cynulleidfa: Pob ymarferwr  
Cost: Rhad ac am ddim

### **Chwarae, Creadigrwydd a Chyfathrebu**

Mae'r cwrs hwn yn addas ar gyfer pob aelod o staff sy'n gweithio mewn Ysgolion Arbennig gyda myfyrwyr o unrhyw oed.

Mae dull chwaraeus o weithio'n hanfodol ar gyfer addysg anghenion arbennig o safon uchel.

Trwy weithgareddau chwaraeus, gemau ac adlewyrchu, bydd y cwrs hwyliog hwn yn dysgu:

- Sut i chwarae
- Pwysigrwydd cymdeithasol chwarae
- Dod â chwarae i'r ystafell ddosbarth
- Creu'n fyrfyfyr
- Sut i weld pethau mewn ffordd chwaraeus

#### **Manylion y Cwrs**

Dyddiad: 15fed Chwefror 2022  
Amser: 12pm-2pm  
Lleoliad: Trwy gyfrwng Zoom  
Hyfforddwr: Concept Training  
Cynulleidfa: Pob ymarferwr  
Cost: Rhad ac am ddim

Dyddiad: 14fed Mawrth 2022  
Amser: 6:30pm-8:30pm  
Lleoliad: Trwy gyfrwng Zoom  
Hyfforddwr: Concept Training  
Cynulleidfa: Pob ymarferwr  
Cost: Rhad ac am ddim

### **Deall Ymddygiad fel dull cyfathrebu a sut i ymateb mewn ffordd Gadarnhaol**

Addas ar gyfer yr holl staff ym maes Addysg Arbennig a Gofal, Addysg Brif Ffrwd a'r Blynyddoedd Cynnar

Mae'r cwrs ymarferol hwn yn addysgu sgiliau craidd i gynrychiolwyr o ran sut i empatheddio ag anghenion y bobl maen nhw'n eu cefnogi, a'i diwallu. Gan fod empathi yn rhan mor bwysig o ofal ac addysg AAA, mae'r cwrs hwn yn berthnasol i bob gweithiwr proffesiynol ac aelodau'r teulu sy'n cefnogi unigolyn ag anabledd dysgu, awtistiaeth neu broblem iechyd meddwl, gan gynnwys athrawon, cymhorthyddion addysgu a staff clinigol a rheolwyr sy'n gweithio dan amgylchiadau heriol gyda phobl ag anghenion cymhleth.

- Ymarfer myfyriol i ddeall yr angen nas diwallwyd sy'n achosi gofid ac ymddygiad heriol
- Canfod strategaethau newydd i gefnogi angen nas diwallwyd yr unigolyn a gaiff ei gefnogi a'r unigolyn sy'n rhoi gofal
- Dysgu egwyddorion cyfathrebu tosturiol a sut i weithredu hyn gyda defnyddwyr gwasanaeth/myfyrwyr a chydweithwyr.

### **Manylion y Cwrs**

Dyddiad: 17fed Chwefror 2022

Amser: 10am-12pm

Lleoliad: Trwy gyfrwng Zoom

Hyfforddwr: Concept Training

Cynulleidfa: Pob ymarferwr

Cost: Rhad ac am ddim

Dyddiad: 28fed Mawrth 2022

Amser: 6:30pm-8:30pm

Lleoliad: Trwy gyfrwng Zoom

Hyfforddwr: Concept Training

Cynulleidfa: Pob ymarferwr

Cost: Rhad ac am ddim

### **Cyflwyniad i Iechyd Meddwl Plant yn eu Harddegau**

Bydd y cwrs lefel sylfaen hwn yn helpu cyfranogwyr i ddeall y prosesau sy'n rhan o'r ardegau a sut y gall y cyfnod pontio rhwng plentyndod a bod yn oedolyn effeithio ar les emosiynol pobl ifanc.

Yn ystod y cwrs hwn bydd cyfranogwyr yn:-

- Datblygu dealltwriaeth gyffredin o iechyd meddwl yng nhyd-destun yr ardegau
- Archwilio'r prosesau datblygiadol a'r trosglwyddiadau perthynol sy'n digwydd yn ystod yr ardegau
- Nodi ffyrdd o gefnogi pobl ifanc i lywio'r heriau maent yn eu hwynebu
- Ystyried sut y gall oedolion y gellir eu hymddiried hyrwyddo iechyd meddwl cadarnhaol a modelu ffyrdd o gefnogi
- Lles

### **Manylion y Cwrs**

Dyddiad: 18fed Chwefror 2022

Amser: 10am-12pm

Lleoliad: Trwy gyfrwng Zoom

Hyfforddwr: Young Minds

Cynulleidfa: Pob ymarferwr  
Cost: Rhad ac am ddim

## Meithrin Gwytnwch

Bydd y cwrs lefel sylfaen hwn yn helpu cyfranogwyr i ddeall pam fod gwytnwch yn bwysig, a sut i'w ddatblygu mewn plant a phobl ifanc, yn ogystal â'r systemau o'u hamgylch. Mae gan y cyfranogwyr gyfle i adlewyrchu, adeiladu ar ymarfer presennol, a datblygu ac ymarfer sgiliau newydd i gefnogi plant a phobl ifanc yn well.

Yn ystod y cwrs hwn bydd cyfranogwyr yn:-

- Datblygu dealltwriaeth o wytnwch mewn perthynas ag ymdopi ag, a dod dros ffactorau risg a heriau
- Datblygu dealltwriaeth o ffyrdd y gallwn adeiladu ar wytnwch plant a phobl ifanc, yn ogystal â'r rhai o'u hamgylch
- Ystyried rôl oedolyn y gellir ymddiried ynddynt wrth feithrin gwytnwch
- Archwilio dull systemig o weithio wrth feithrin gwytnwch
- Nodi ffyrdd o fagu gwytnwch y sawl sydd o amgylch y plentyn neu'r person ifanc

### Manylion y Cwrs

Dyddiad: 28fed Chwefror 2022  
Amser: 10am-12pm & 6pm-8pm  
Lleoliad: Trwy gyfrwng Zoom  
Hyfforddwr: Young Minds  
Cynulleidfa: Pob ymarferwr  
Cost: Rhad ac am ddim

## Ymlyniad cadarnhaol

### Nod

- Cynyddu gwybodaeth ymarferwyr am theori ymlyniad
- Ennill gwybodaeth am ffactorau sy'n effeithio ar ymlyniad a'r effaith ar blant yn y blynyddoedd cynnar
- Rhoi strategaethau ymarferol i ymarferwyr i gefnogi plant sydd ag anawsterau o ran ymlyniad
- Darparu cefnogaeth effeithiol i blant a'u teuluoedd trwy ryngweithio o ansawdd uchel

### Canlyniadau Dysgu

Gweminar Un: Theori ymlyniad yn ymarferol

- Archwilio'r theori ymlyniad allweddol sy'n dylanwadu ar arfer yn y blynyddoedd cynnar
- Cysylltu theori ymlyniad allweddol â phrofiadau plant yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar
- Nodi effaith arddulliau ymlyniad ac anawsterau ar ddysgu a datblygu plant.

Gweminar Dau: Meithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol

- Archwilio arfer presennol o ran ymlyniad a chefnogi perthnasoedd

- Llunio cronfa o strategaethau ymarferol i gefnogi perthnasoedd cadarnhaol
- Nodi camau gweithredu i gefnogi partneriaeth rhieni a chynyddu hyder rhieni yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar.

### **Manylion y Cwrs**

Dyddiad: 16fed & 23fed Chwefror 2022

Amser: 6:30pm-9pm - **mae'n rhaid i chi fynychu'r ddau ddyddiad**

Lleoliad: Trwy gyfrwng Zoom

Hyfforddwr: NDNA

Cynulleidfa: Pob ymarferwr

Cost: Rhad ac am ddim

## **Babanod a Aned yn ystod Covid**

### **Nod**

- Cydnabod effaith Covid ar fabanod a'u teuluoedd
- Creu cronfa o strategaethau i ddarparu cefnogaeth effeithiol i 'fabanod a aned yn ystod Covid' wrth iddynt bontio i leoliadau'r blynyddoedd cynnar.

### **Canlyniadau Dysgu**

1. Nodi effaith bosibl Covid ar ddatblygiad babanod
2. Nodi'r canolbwyntiau allweddol ar gyfer lleoliadau'r blynyddoedd cynnar wrth ofalu am fabanod
3. Datblygu strategaethau i gefnogi babanod a'u teuluoedd sy'n pontio i leoliadau'r blynyddoedd cynnar neu sy'n eu mynychu eisoes

### **Manylion y Cwrs**

Dyddiad: 21fed Chwefror 2022

Amser: 6:30pm-9pm

Lleoliad: Trwy gyfrwng Zoom

Hyfforddwr: NDNA

Cynulleidfa: Pob ymarferwr

Cost: Rhad ac am ddim